



WALES **AUDIT** OFFICE  
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a bob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am wybod eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk) neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Colin Davies a Justine Morgan, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella Cymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at Archwilydd Cyffredinol Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ. Rhif ffôn: 02920 320500, e-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk), neu gweler y wefan [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

©Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddedfnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddedfnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddedfnyddio.

# Cynnwys

Pa fath o ardal yw Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful?	04
A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cael ei reoli'n dda?	05
A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gwybod beth y mae angen iddo ei wneud i wella?	07
A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gwasanaethu pobl yn dda?	12
A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn helpu pobl mewn angen?	13
A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn helpu pobl i ddatblygu?	17
A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo?	20
Beth y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ei wneud?	23

## Atodiadau

Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn	24
Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Ferthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	26
Atodiad 3 - Asesiad corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol	27
Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	28
Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	30
Atodiad 6 - Cyfeiriadau	32

# Pa fath o ardal yw Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful?

- 1 Mae Merthyr Tudful yn cwmpasu ardal sy'n 111 km<sup>2</sup>, gan olygu mai hon yw'r ardal awdurdod lleol leiaf ond un yng Nghymru yn ôl arwynebedd tir. Wedi'i lleoli wrth odre Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae Merthyr Tudful yn ymfalchïo yn ei threftadaeth ddiwylliannol a diwydiannol ac mae ganddi gysylltiadau trafniadaeth da. Mae'r A470 yn rhedeg o'r gogledd i'r de drwy'r Fwrdeistref Sirol ac mae llawer o drigolion yn cymudo i'r gwaith i ganolfannau mawr megis Caerdydd.
- 2 Yn seiliedig ar yr amcangyfrif diweddaraf (2009), mae 55,657 o bobl yn byw ym Merthyr Tudful gyda nifer fawr yn byw yn y dref Sirol ei hun. O gymharu â Chymru gyfan, mae gan Ferthyr Tudful gyfran ychydig yn uwch o bobl o oedran gweithio a chyfran is o bobl o oedran ymddeol. Mae proffil oedran y boblogaeth yn dangos yr oedd 10,763 o blant 16 oed ac iau a 9,460 o oedolion 65 oed a throsodd yn 2009. Disgwylir i boblogaeth Merthyr Tudful dyfu tua 4 y cant erbyn 2033.
- 3 Ym mis Gorffennaf 2010, datganodd 5.9 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio ym Merthyr Tudful ei bod yn ddi-waith drwy hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a chredydau Yswiriant Gwladol. Y cyfartaledd ar gyfer Cymru oedd 3.6 y cant ac roedd gan Ferthyr Tudful y lefel uchaf o ddiweithdra namyn un ledled y wlad.
- 4 Ceir rhagor o wybodaeth am Ferthyr Tudful a'r Cyngor yn [Atodiad 2](#).

ardal ddaearyddol

111km<sup>2</sup>

//////////

poblogaeth

> 55,657

//////////

10,763 yn 0 - 16 oed

9,460 yn >65 oed

//////////

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cael ei reoli'n dda?

- 5 Ym mis Awst 2010, lluniodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad yn nodi sut y caiff y Cyngor ei drefnu a'i reoli. Ceir crynodeb o'r adroddiad hwn, sef yr Asesiad Corfforaethol, yn **Atodiad 3**. Mae'r Adroddiad Asesu Corfforaethol llawn ar gael ar wefan y Cyngor neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk).
- 6 Daeth yr adroddiad hwnnw i'r casgliad cyffredinol canlynol sef, yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, bydd yn fwyfwy anodd i'r Cyngor gynnal momentwm o ran gwella oni bai bod ei raglen o fentrau newid yn cael ei gweithredu ochr yn ochr â blaenoriaethau strategol clir, strategaeth ariannol tymor canolog glir a threfniadau rheoli pobl effeithiol.
- 7 Dros amser mae'r Cyngor wedi datblygu'n dda ond mae angen iddo feddu ar fwy o ffocws o ran yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni yn y cyfnod heriol sydd o'i flaen. Mae'n rhaid iddo sicrhau bod ei gynlluniau wedi'u cysylltu'n fwy cadarn ag agenda strategol glir a darparu mwy o fanylion am y ffordd y caiff pethau eu gwneud. Mewn sawl ffordd mae'r Cyngor yn cael ei redeg yn dda ac mae newidiadau diweddar i'r ffordd y caiff ei drefnu yn rhoi cyfle da iddo newid pethau er gwell. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor foderneiddio'r ffordd y mae'n rheoli'r bobl sy'n gweithio iddo fel y gall wneud gwell defnydd o'u sgiliau. Hefyd, mae angen iddo ddeall yn well sut y caiff adnoddau'r Cyngor eu cysoni â chyflawni ei flaenoriaethau.
- 8 Ers i ni gyhoeddi ein Hasesiad Corfforaethol mae arweinyddiaeth y Cyngor wedi newid. Penodwyd Prif Weithredwr newydd ac mae'r Cyngor wrthi'n cyflwyno trefniadau gwleidyddol newydd drwy sefydlu Pwyllgorau Craffu newydd. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas ag ymdrin â rhai o'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn ein Hasesiad Corfforaethol. Yn arbennig, mae wedi llunio a chyhoeddi ei Flaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer Gwella ynghyd â chynlluniau gweithredu ategol gan ddangos bod y Cyngor yn gwybod beth sydd angen iddo ei wneud i gyflawni ei amcanion gwella, a sut y bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth a nodir yn y Cynllun Cymunedol. Fodd bynnag, hyd yn hyn nid yw'r Cyngor wedi datblygu elfennau allweddol o'r fframwaith strategol sy'n angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion gwella, yn enwedig ei strategaethau ar gyfer gwaith cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu tymor canolog.
- 9 Ers i ni gyflawni ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol mae'r pwysau wedi cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. Mae'r archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi ei farn ar gyfrifon y Cyngor. Mae ei Lythyr Archwilio Blynyddol, sy'n rhoi gwybodaeth am y cyfrifon, y defnydd o adnoddau a Chynllun Gwella'r Cyngor wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn **Atodiad 4**. Ceir rhagor o wybodaeth am hawliau pobl mewn perthynas â chyfrifon y cyngor yn nhaflen Swyddfa Archwilio Cymru, sef Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau, sydd ar gael ar ein gwefan yn [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk).
- 10 Mae bron pob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu toriadau. Arian refeniw yw'r arian a werir gan gynghorau ar redeg a rheoli eu gwasanaethau. Yn 2009-10 pennodd y Cyngor gyllideb refeniw o £103.9 miliwn. £107 miliwn oedd y gyllideb yn 2010-11. Bydd y Cyngor yn gweld lleihad o tua £1.5 miliwn (1.7 y cant) yn yr arian refeniw a gaiff oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant, mae hyn yn golygu y bydd lleihad mewn termau real<sup>1</sup> o tua

<sup>1</sup> Ystyr termau real yw y caiff effaith chwyddiant ei hystyried. Mae llawer o wahanol ddulliau o fesur chwyddiant. Daw'r ffigurau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyllidebau'r sector cyhoeddus o gyfres datchwyddo CMC y Trysorlys.



- £3.1 miliwn (3.6 y cant). Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos lleihad pellach mewn termau real yn arian refeniw'r Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14.
- 11 Rheolwyd cyllideb y Cyngor yn dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi llwyddo i fantoli'r gyllideb ar lefel gorfforaethol. Ar y cyfan, mae hyn yn rhoi sail gadarn i'r Cyngor wrth iddo wynebu cyfnod o newid sylweddol a thoriadau, gan fod ganddo hanes da o sicrhau y caiff ei wasanaethau eu darparu o fewn yr adnoddau cyffredinol sydd ar gael iddo. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â rhai heriau sylweddol os yw am sicrhau lefel yr arbedion a ragwelir ganddo.
- 12 Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i nodi'r bwloch rhwng yr arian a gaiff yn y tymor canolig a lefelau gwariant arfaethedig. Dros y misoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd a disgwylir iddo gyhoeddi canlyniadau'r gwaith hwn i'w aelodau ar ddechrau 2011. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y lefel ddisgwyliedig o wariant o dan drefniadau gwasanaeth presennol. Caiff ei ddefnyddio i asesu cynaliadwyedd trefniadau gwasanaethau presennol ac i lywio penderfyniadau ynghylch dyfodol y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.
- 13 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran nodi arbedion effeithlonrwydd byrdymor ac mae wedi cynnwys gofynion effeithlonrwydd cymeradwy yng nghyllidebau 2009-10 a 2010-11. Hefyd, nodwyd prosiectau mwy arwyddocaol ar gyfer arbedion tymor canolig y bydd angen i'r Cyngor eu datblygu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ei drefniadau cynllunio ariannol tymor canolig a chynllun gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fwloch ariannol a nodir.
- 14 Arian cyfalaf yw'r arian a werir gan gynghorau ar seilwaith, er enghraifft adeiladau a chyfarpar newydd. Disgwylir i'r arian cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor leihau'n sylweddol. Gan fod cynghorau'n gwneud ceisiadau am arian cyfalaf, nid yw'n bosibl bod yn gwbl sicr faint y bydd pob cyngor yn ei gael. Bydd gostyngiad o 14 y cant yng nghyfanswm yr arian cyfalaf sydd ar gael i gynghorau yn 2011-12 (sef 18.5 y cant mewn termau real). Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol y tu hwnt i 2011-12 ond mae'n debygol o fod yn unol â lleihad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn gostwng tua 34 y cant (sef tua 40 y cant mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2013-14.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gwybod beth y mae angen iddo ei wneud i wella?

## Pam y dylai cyngor bennu amcanion clir?

- 15 Rôl llywodraeth leol yng Nghymru yw darparu arweinyddiaeth gymunedol a democrataidd, gan weithio gyda llywodraeth genedlaethol i helpu i gyflawni blaenoriaethau a rhaglenni cenedlaethol. Mae hefyd angen i'r Cyngor ddatblygu ei flaenoriaethau lleol ar ôl ystyried anghenion dinasyddion, y dyletswyddau a swyddogaethau statudol sydd ganddo ac mewn ymgynghoriad â phartneriaid, cymunedau ac asiantaethau eraill.
- 16 O ystyried yr ystod eang o swyddogaethau a gyflawnir gan gyngor, ei rwymedigaeth i ofynion cenedlaethol yn ogystal â gofynion lleol, a'r angen i sicrhau bod ei adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol, mae'n bwysig bod eglurder ynghylch yr hyn y mae cyngor yn bwriadu ei wneud a pham ei fod yn gwneud hynny. Mae'r fath eglurder yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch y defnydd o adnoddau. Drwy sicrhau y gall nodi canlyniad ei weithgarwch gall y Cyngor roi sicrwydd i aelodau etholedig unigol, ei ddinasyddion ac eraill ei fod yn defnyddio'i adnoddau yn y ffordd orau posibl.
- 17 Mae llywodraeth y Cynulliad wedi gosod gofynion penodol ar bob cyngor i gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella'r hyn a wna ac egluro sut y bydd yn gwneud hynny cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn. Mae'n rhaid iddo hefyd gyhoeddi rhestr o'i flaenoriaethau y mae'n bwriadu eu gwella bob blwyddyn - ei amcanion gwella.
- 18 Fodd bynnag, hon oedd blwyddyn gyntaf gweithredu'r agwedd hon ar y ddeddfwriaeth ac, er mwyn sicrhau bod ei amcanion gwella yn gyson â'r Cynllun Cymunedol, penderfynodd y Cyngor na fyddai'n llunio fersiwn terfynol o'i amcanion gwella nes bod gwaith ar ei Gynllun Cymunedol newydd wedi mynd rhagddo'n ddigonol. O dan gyfarwyddyd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Merthyr Tudful, aeth gwaith rhagddo yn ystod haf 2010 i lunio'r Cynllun Cymunedol sef *Its Looking Good: Merthyr Tydfil 2020 – Turning Aspirations into Reality*. Cafodd y Cynllun Cymunedol ei gymeradwyo gan Fyrddau'r amryw Bartneriaid a'r Cyngor Llawn ym mis Tachwedd 2010.

## Beth yw amcanion gwella'r Cyngor?

- 19 Cymeradwyodd y Cyngor ei Flaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer Gwella 2010-13 (amcanion gwella) ar 15 Medi 2010 ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan y Cyngor ar 29 Medi 2010.
- 20 Ar 13 Hydref 2010 cytunodd y Cyngor ar ei Gynllun Corfforaethol 2010-13, sef y ddogfen bolisi allweddol sy'n nodi amcanion gwella'r Cyngor a sut maent yn ategu'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Cymunedol. Mae'r Cyngor wedi nodi naw amcan gwella, a grynhoir yn **Figur 1** isod.

## Ffigur 1: Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Blaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer Gwella 2010-13	
<b>Adfywio Cymdeithasol, Economaidd a Ffisegol</b>	Cydgysylltu gwasanaethau i drigolion di-waith, yn enwedig rhieni plant o dan 16 oed, gan eu galluogi i gael gafael ar ystod ehangach o gymorth, adnoddau dysgu a chyfleoedd.
	Creu, denu a chynorthwyo busnesau o bob math a'u galluogi i ffynnu.
	Gwella ansawdd amgylchedd ffisegol Merthyr Tudful.
<b>Canolbwyntio ar y Cwsmer a'i Gynnwys</b>	Newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu er mwyn cynnig profiad effeithlon o ansawdd uchel i gwsmeriaid ar bob cam cysylltu.
<b>Bywydau Bodlon a Chymunedau Cefnogol</b>	Helpu pobl agored i niwed o bob oed i fod mor iach, annibynnol a diogel â phosibl ac i fwynhau'r ansawdd bywyd gorau posibl gartref ac yn y gymuned.
<b>Diogelwch Cymunedol</b>	Cymuned y mae pobl yn teimlo'n ddiogel ynddi a lle y caiff lefelau trosedd ac anhrefn eu gostwng.
<b>Tai o Ansawdd Da</b>	Gostwng cyfraddau digartrefedd a sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar dai fforddiadwy, addas sydd o ansawdd uchel.
<b>Ailgylchu a Rheoli Gwastraff</b>	Lleihau effaith gwastraff drwy sicrhau bod gennym y cyfleusterau cywir i gasglu a thrin ein gwastraff a thrwy annog trigolion, ysgolion a busnesau i leihau gwastraff i'r eithaf, ei aildefnyddio a'i ailgylchu.
<b>Gwasanaethau Cyhoeddus Effeithlon</b>	Darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon drwy foderneiddio prosesau caffael, adolygu pob gwasanaeth i nodi effeithlonrwydd ynghyd â rhesymoli swyddfeydd.
<b>Seilwaith gan gynnwys Prifffyrdd</b>	Cynnal seilwaith i lefel dderbyniol, gan gydnabod blaenoriaethau'r Cyngor a'i rwymedigaethau statudol o ran y cyllid sydd ar gael.
<b>Cyfleoedd Dysgu o Ansawdd Uchel</b>	Caiff plant a phobl ifanc fynediad at addysg a hyfforddiant gan lwyr ymgysylltu â hwy.

*Ffynhonnell: Addaswyd o Gynllun Corfforaethol 2010-13 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful*



## A yw'r Cyngor wedi pennu amcanion gwella priodol?

- 21 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i gynghorau bennu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer gwella sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Mae hefyd yn disgwyl i amcanion gwella ymwneud ag un neu fwy o agweddau penodol, megis gwella argaeledd neu ansawdd gwasanaethau neu wella effeithlonrwydd. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn cwmpasu ystod eang, gan gydnabod yr angen i wella trefniadau mewnol yn ogystal â sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion. Yn hyn o beth rydym o'r farn eu bod yn briodol gan eu bod yn cwmpasu meysydd a ddisgwylir gan Lywodraeth y Cynulliad.
- 22 Edrychwyd ar ba mor dda yr oedd y Cyngor yn cynnwys pobl leol a'r rheini sy'n gweithio iddo a chydag ef, wrth bennu'r hyn y dylid ei flaenoriaethu. Mae'r Cyngor yn ymgynghori â phobl leol mewn nifer o ffyrdd gwahanol ac mae'n dechrau gweithio gyda sefydliadau partner eraill i gynnal ymgynghoriadau ar y cyd. Gallem nodi bod y rhan fwyaf o faterion sy'n bwysig i bobl wedi'u cwmpasu gan amcanion gwella eang y Cyngor. Gwelwyd bod y Cyngor wedi ymrwymo i ystyried barn ei bartneriaid wrth ddatblygu ei amcanion gwella ac mae cysylltiadau clir rhwng naw amcan gwella'r Cyngor a'r pedair thema a nodir yn y Cynllun Cymunedol. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn disgwyl y bydd cynghorau'n egluro sut y gall cymunedau neu randdeiliaid gynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn ac mae Cynllun Corfforaethol cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer 2010-13 yn gwneud hyn yn glir.
- 23 Er mwyn pennu ei amcanion gwella, ystyriodd y Cyngor amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn cynnwys:
- adolygu'r naw blaenoriaeth gorfforaethol bresennol a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2009-12 yn sgîl themâu'r Cynllun Cymunedol;
  - adolygu gwybodaeth am berfformiad presennol yn cynnwys dangosyddion strategol a chraidd cenedlaethol a herio'r cynnydd a wnaed;
  - ystyried y blaenoriaethau cenedlaethol a rhyngwladol a fynegwyd gan Lywodraeth y Cynulliad;
  - adolygu'r gwaith ymgynghori a wnaed wrth lunio'r Cynllun Cymunedol ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y gyllideb ym mis Rhagfyr 2009, er mwyn pennu pa faterion sydd bwysicaf i'w ddinasyddion a'i randdeiliaid; a
  - gwerthuso fforddiadwyedd y blaenoriaethau corfforaethol arfaethedig ar gyfer gwella.
- 24 Unwaith y cytunwyd ar yr amcanion gwella, gwnaeth y Cyngor waith da yn rhannu ei gynlluniau â phobl leol. Cafodd Cynllun Corfforaethol 2010-13 ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar 29 Hydref 2010 ac yn dilyn hynny ar ffurf copi caled a ddsbarthwyd i leoliadau allweddol yn y Fwrdeistref Sirol.
- 25 Ar 24 Tachwedd 2010, cyhoeddodd y Cyngor Grynodedd Cyhoeddus o'i Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2010-13 a'i Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2009-10. Rhydd y crynodeb ddarlun cytbwys o'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni dros y 12 mis diwethaf, ynghyd â gwybodaeth am yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni yn 2010 a thu hwnt a sut y gall trigolion helpu. Cafodd

y crynodeb ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, ochr yn ochr â datganiad i'r wasg, a arweiniodd at gyhoeddi erthygl yn y Merthyr Express ar 25 Tachwedd 2010. Hefyd rhoddwyd copïau caled o'r crynodeb i'r cyhoedd mewn digwyddiad ymgynghori Cabinet a gynhaliwyd yng Nghanol y Dref ar 15 Ionawr 2011 yn ymwneud â'r Gyllideb a Blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2011-12.

- 26 Fodd bynnag, yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad, mae angen i amcanion gwella'r Cyngor gael eu cyhoeddi'n gynt eleni er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn glir ynghylch yr hyn y mae'n bwriadu canolbwyntio arno, pa ganlyniadau buddiol y gallant eu disgwyl, a sut y gallant gynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn.
- 27 Craffwyd ar y broses a ddilynwyd i bennu'r amcanion gwella gan y Prif Weithredwr a'r Pwyllgor Craffu ar Gyllid fel y gellid ystyried yr argymhellion a wnaed fel rhan o'r broses i'w dilyn yn 2011-12. Cyflwynwyd adroddiad ar hyn i Gabinet y Cyngor ar 12 Ionawr 2011. Yn ein barn ni gallai'r Cyngor wneud mwy i gynnwys ei staff yn y gwaith o ddatblygu ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau bod pawb yn deall diben a blaenoriaethau'r Cyngor a'u bod yn cael cyfle i gyfrannu syniadau ar gyfer gwella.

## A oes gan y Cyngor gynlluniau realistig i gyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella?

- 28 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2010-13 yn cynnwys cynlluniau gweithredu manwl sy'n ategu'r naw amcan gwella. Mae pob cynllun gweithredu ategol yn nodi'r canlyniadau eang a phenodol y mae'r Cyngor yn anelu at eu cyflawni yn seiliedig ar arfarniad o gryfderau presennol a meysydd i'w gwella. Mae'r cynlluniau'n nodi'r tasgau a gwblheir a'r mesurau a ddefnyddir i fonitro a gwerthuso llwyddiant y broses o gyflawni gwell canlyniadau. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi enwebu swyddog arweiniol i fod yn gyfrifol am gyflawni pob cynllun gweithredu.
- 29 Caiff y cynnydd a wneir o ran cyflawni'r tasgau, ac o ran cyflawni'r cerrig milltir a thargedau a bennwyd ymhob un o'r cynlluniau gweithredu ategol, ei fonitro'n chwarterol gan Fwrdd Gweithredol, Cabinet a Phwyllgor Craffu priodol y Cyngor.
- 30 Wrth lunio ei Gynllun Corfforaethol, roedd y Cyngor yn aros i glywed beth fyddai ei setliad ariannol, felly nawr bydd angen iddo adolygu ei weithgarwch arfaethedig yng nghyd-destun hynny. Bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod ei Gynlluniau Busnes ar gyfer Gwasanaethau yn gyson â blaenoriaethau corfforaethol ar gyfer gwella ac â'r cyllid sydd ar gael ac mae angen rhoi blaenoriaeth i lunio cynllun ariannol tymor canolig i lywio a hwyluso'r gwaith hwn.

## A fydd y Cyngor yn gallu dangos p'un a yw wedi cyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella?

- 31 Wrth bennu amcanion gwella mae angen i'r Cyngor fod yn glir ynghylch yr hyn y mae'n ceisio'i gyflawni a pha wahaniaeth y bydd cyflawni'r amcanion hyn yn ei wneud i fywydau pobl leol. Er mwyn gwneud hyn, rhaid bod gan y Cyngor ffyrdd o fesur a dangos canlyniadau fel bod pawb yn deall p'un a yw cyflawni'r amcanion gwella wedi gwneud gwahaniaeth ai peidio. Ar gyfer pob amcan gwella, mae cynlluniau'r Cyngor yn nodi'r tasgau hanfodol y mae'n rhaid eu cyflawni er mwyn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd ynghyd â'r mesurau a'r targedau i'w defnyddio i werthuso llwyddiant a dangos tystiolaeth ohono. Yn achos y rhan fwyaf o'i amcanion gwella, mae'r Cyngor wedi nodi dangosyddion perfformiad lleol a chenedlaethol meintiol fel mesurau allweddol o llwyddiant tuag at eu cyflawni'n llwyddiannus. Rhoddir gwybodaeth sylfaenol lle y bo ar gael fel bod modd gwerthuso cynnydd.
- 32 Cafodd ein harchwiliad fod y Cyngor wedi cyflwyno digon o systemau i lunio'r rhan fwyaf o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol 2009-10 a ddefnyddiwyd i fesur perfformiad. Rydym wedi hysbysu'r Cyngor o'n canfyddiadau.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gwasanaethu pobl yn dda?

- 33 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn edrych ar wasanaethau'r Cyngor a rhai o'r amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i dair agwedd bwysig ar fywyd ym Merthyr Tudful. Credwn, gyda'i gilydd, eu bod yn cwmpasu'r prif bethau y mae cynghorau yn eu gwneud. Mae'r amcanion fel a ganlyn:
- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
  - helpu pobl i ddatblygu; a
  - helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo.
- 34 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi edrych ar gynnydd y Cyngor hyd yn hyn mewn perthynas â phob un o'r amcanion fel y bydd y Cyngor, ac eraill, mewn gwell sefyllfa'r flwyddyn nesaf i ddeall i ba raddau y mae perfformiad wedi gwella. Mae'r amcanion a ddewiswyd gennym fel a ganlyn:
- Bywydau Bodlon a Chymunedau Cefnogol;
  - Cyfleoedd Dysgu o Ansawdd Uchel; ac
  - Ailgylchu a Rheoli Gwastraff.
- 35 Dewiswyd yr amcanion hyn oherwydd gyda'i gilydd maent yn cwmpasu sawl maes allweddol o gyfrifoldebau'r Cyngor. Ar y cyfan, os yw'r Cyngor wedi dewis blaenoriaethu pethau, dylai fod yn gallu eu mesur o ran sut maent yn effeithio ar bobl leol. Byddwn yn edrych ar amcanion gwella eraill y mae'r Cyngor yn eu pennu iddo'i hun yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.
- 36 Yng Nghymru mae hefyd angen gwasanaethu dinasyddion a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, fel sy'n briodol i ddiwallu anghenion y gymuned. Yn 2009 gallai 18 y cant o boblogaeth Merthyr Tudful siarad Cymraeg o gymharu ag ychydig llai na 26 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru.
- 37 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n bennaf gyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Disgwylir i bob awdurdod lleol gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae hyn yn galluogi Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gynnig cyngor ar sut y gallai Cyngor wella ei drefniadau lleol. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i hyrwyddo gwelliant.
- 38 Cafodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg Adroddiad Monitro Blynyddol y Cyngor ar berfformiad ar 15 Tachwedd 2010, er y'i disgwyliwyd yn ystod haf 2010. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cael bod dogfennaeth etholiadol y Cyngor yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg, ond nad yw ei wefan yn gwneud hynny. Bellach disgwylir i'r Cyngor lunio cynllun gwella i fynd i'r afael â'r mater hwn.

## A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn helpu pobl mewn angen?

- 39 Mae gan Ferthyr Tudful boblogaeth sy'n heneiddio, proffil iechyd gwael a'r gyfradd uchaf ond dwy o bobl hŷn sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned. Ceir cryn dipyn o bocedi o amddifadedd lluosog yn y fwrdeistref sirol a'r gyfradd uchaf o famau beichiog yn eu harddegau yng Nghymru. Ym Merthyr y mae'r disgwyliad oes dynion isaf yng Nghymru a'r disgwyliad oes menywod isaf ond un.
- 40 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ynghylch gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac annog darparwyr y gwasanaethau i wella. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd ceir fframwaith newydd ar gyfer gwaith arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.
- 41 Mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna bydd AGGCC yn mynd ati i adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn ceir cynllun arolygu ac adolygu unigol ar gyfer pob cyngor. Caiff dadansoddiad AGGCC, ynghyd â'r cynllun arolygu ac adolygu, eu cyflwyno bob blwyddyn mewn llythyr a gyhoeddir.
- 42 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd sydd â'r nod o sefydlu llinell sylfaen o berfformiad presennol. Ceir crynodeb o negeseuon allweddol y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod.
- 43 O ran gwasanaethau oedolion, mae gan y Cyngor systemau da ar waith i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Mae'n arloesi yn y ffordd y mae'n hyrwyddo ei wasanaethau, cynnig mwy o ddewis a darparu ystod eang o wybodaeth. Mae'n rheoli achosion o drosglwyddo cleifion o'r ysbyty yn dda ac mae'r rhestrau aros ar gyfer ei wasanaethau yn fach iawn. Mae perfformiad mewn perthynas â chynnal adolygiadau rheoli gofal yn dda ac mae lefelau atgyfeirio amhriodol yn gwella. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r partneriaid statudol cywir i ddarparu gwasanaethau ac mae canolfan newydd yn helpu pobl i fod yn annibynnol unwaith eto. Mae'r Adolygiad Cenedlaethol o Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, a gwblhawyd yn 2010, yn amlygu cryfderau gan gynnwys ymateb yn brydlon ac ansawdd cyffredinol ymchwiliadau.
- 44 Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth yn dwyn ynghyd y wybodaeth sydd ei hangen i'w helpu i gynllunio, gwella a thargedu ei wasanaethau oedolion yn y ffordd orau posibl a dangos yr hyn y mae'n ei gyflawni. Nid yw cynlluniau gofal bob amser yn ddigon da ac mae'r gwasanaeth yn cael ei foderneiddio'n rhy araf. Nododd yr adolygiad o amddiffyn oedolion agored i niwed hefyd nifer o feysydd lle mae angen cymryd camau ar fyrder gan gynnwys yr angen i ddatblygu cynlluniau asesu risg ac amddiffyn ac integreiddio'r gwasanaeth yn rhan o reoli gofal gwasanaethau cymdeithasol yn well er mwyn sicrhau y rhoddir ymateb cyson.

- 45 O ran gwasanaethau plant, mae'r Cyngor yn rheoli atgyfeiriadau'n fwyfwy effeithiol ac yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau plant wrth iddo gynllunio eu gofal. Mae hefyd yn defnyddio gwybodaeth dda i ddeall angen. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn rheoli nifer y plant sydd angen gofal a'u helpu i fynychu'r ysgol a chyflawni nodau addysgol. Mae gofal maeth, a ddarperir fwyfwy gan ofalwyr cymwys, a chymorth y tu allan i oriau yn gweithio'n effeithiol ac mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda â'r gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd.
- 46 Ymhlith y meysydd i'w gwella mae datblygu gwell dulliau o roi gwybodaeth i gymuned amrywiol ac ymgysylltu â phlant a theuluoedd sy'n cael eu cefnogi gan y Cyngor. Mae angen i asesiadau cychwynnol fod yn fwy amserol ac nid yw asesiadau a chynlluniau gofal o ansawdd digonol nac yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf bob amser. Nid yw lleoliadau gofal bob amser yn sefydlog nac yn briodol ac ni chanolbwyntir digon ar drefniadau iechyd. Mae hefyd angen i'r cymorth a roddir i'r rheini sy'n gadael gofal a gofalwyr ifanc wella. Ymhob ffordd mae angen i dargedau adlewyrchu canllawiau statudol.
- 47 Ar y cyfan, mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n dda ag eraill i ddatblygu gwasanaethau ac maent yn cynnig cyfarwyddyd da drwy aelodau arweiniol a hyrwyddwyr gwasanaethau penodol. Fodd bynnag, mae angen i'r gwasanaeth ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau a meithrin cysylltiadau cryfach ag agenda ehangach y Cyngor. Mae'n cynyddu gallu ac adnoddau drwy fesurau i ddatblygu'r gweithlu er bod angen iddo gael mwy o gefnogaeth gan wasanaethau corfforaethol. Newidiodd y Cyngor ei drefniadau gwleidyddol yn 2010 ac mae'n bwriadu datblygu'r swyddogaeth graffu ymhellach. Mae angen i'r Cyngor ddefnyddio'r newidiadau hyn yn effeithiol er mwyn cynnal ymrwymiad aelodau i amrywiaeth o fentrau newid a moderneiddio.

## A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn helpu pobl agored i niwed o bob oed i fod mor iach, annibynnol a diogel â phosibl ac i fwynhau'r ansawdd bywyd gorau posibl gartref ac yn y gymuned drwy ei Raglen Cartrefi am Oes?

### Pam mae'r Cyngor wedi nodi hyn fel blaenoriaeth ar gyfer gwella?

- 48 Mae'r pwyslais ar yr hyn a elwir gan y Cyngor yn rhaglen Cartrefi am Oes ar gyfer y cyfnod 2010-13 yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus y Cyngor i fynd i'r afael ag un o'i brif heriau.
- 49 Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ei strategaeth Pobl Hŷn ar gyfer 2009, comisiynodd y Cyngor ymchwil gan gwmni ymgynghori annibynnol (y Sefydliad Gofal Cyhoeddus). Nododd na fydd y Cyngor mewn sefyllfa i ddiwallu anghenion llety poblogaeth sy'n heneiddio, a gwnaeth argymhellion ar gyfer cynnig mwy o ddewis o lety yn amrywio o dai Gofal Ychwanegol i unedau gwarchod.
- 50 Dengys mesurau cenedlaethol, o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru, fod gan y Cyngor lefelau rhesymol o lwyddiant blaenorol yn cynorthwyo pobl hŷn i fyw gartref<sup>2</sup>. O ystyried yr her y mae'n ei hwynebu mae'r Cyngor wedi pennu targedau iddo'i hun i barhau i wella. Rhwng 2007-08 a 2009-10, cyflawnodd y Cyngor ei dargedau i leihau'r defnydd o gartrefi preswyl ar gyfer yr henoed ac i leihau'r achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol i'r rheini dros 75 oed. Fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod, nid yw'r Cyngor wedi cyflawni ei darged ar gyfer y graddau y mae'n helpu pobl hŷn (65 oed neu drosodd) i fyw gartref.

<sup>2</sup> Ar gyfer 2009-10, daeth y Cyngor yn y trydydd safle o bliith y 22 o gynghorau yng Nghymru.



51 Nododd adroddiad blynyddol cyntaf y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2010 fod 'pwysau ar y Gwasanaethau i Oedolion yn parhau i gynyddu gyda nifer yr oedrannus yn cynyddu ac yn dod yn ganran uwch o'r boblogaeth yn gyffredinol', gyda'r cynnydd cyfatebol anochel yn y galw am wasanaethau cymdeithasol.

52 Cydnabu adroddiad y Cyfarwyddwr hefyd, er bod Gwasanaeth Ymateb Cychwynnol ac Ailalluogi'r Cyngor yn llwyddiannus o ran gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau am y chwe wythnos gyntaf fel rhan o'r pecyn gofal ail-alluogi, fod angen i'r gwasanaeth ddatblygu er mwyn 'gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddarperir gan ddatblygiadau mewn tele-ofal a thele-iechyd cymunedol'.

53 Ym mis Rhagfyr 2009, fel rhan o'i ymgynghoriad blynyddol ar y gyllideb, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus i nodi blaenoriaethau dinasyddion ar gyfer gwario cronfeydd ariannol y cyngor. Gwasanaethau addysg oedd y brif flaenoriaeth, ac yna wasanaethau cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys gwasanaethau pobl hŷn a helpu pobl i aros yn y gymuned.

**A oes gan y Cyngor gynlluniau realistig i helpu pobl agored i niwed o bob oed i fod mor iach, annibynnol a diogel â phosibl ac i fwynhau'r ansawdd bywyd gorau posibl gartref ac yn y gymuned drwy ei Raglen Cartrefi am Oes?**

54 Mae agweddau allweddol ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer cyflawni ei raglen Cartrefi am Oes eisoes ymhell ar y blaen. Ym mis Hydref 2009 dyfarnodd y Cyngor y contract adeiladu am ei ddatblygiad Gofal Ychwanegol. Mae'r contractwr ar y safle ar hyn o bryd a disgwylir i'r gwaith fod wedi gorffen erbyn diwedd yr haf 2011, gyda'r agoriad swyddogol wedi'i drefnu yn ddiweddarach yn y flwyddyn.


55 Mae'r Cyngor wedi cau dau o'i gartrefi gofal (Tŷ Bargoed a Thŷ Gurnos) ac mae'n uwchraddio cyfleusterau ar ddau safle arall (Tŷ Fictoria a Thŷ Sandbrook).

**A fydd y Cyngor yn gallu dangos ei fod yn helpu pobl agored i niwed o bob oed i fod mor iach, annibynnol a diogel â phosibl ac i fwynhau'r ansawdd bywyd gorau posibl gartref ac yn y gymuned drwy ei Raglen Cartrefi am Oes?**

56 Mae'r Cyngor wedi datblygu'r prif fentrau y bydd yn eu rhoi ar waith i gyflawni ei raglen Cartrefi am Oes gyda'r 'canlyniadau' y mae'n disgwyl i'r rhaglen eu cyflawni, sef:

- ad-drefnu cartrefi preswyl i bobl hŷn;
- datblygu cynllun tai Gofal Ychwanegol;
- comisiynu/caffael cymorth arbenigol ym maes gwasanaethau yn y cartref a llunio polisïau perthnasol ynghyd â phrosesau busnes/rheoli cysylltiedig;
- moderneiddio a symleiddio'r Gwasanaeth Ymateb Cychwynnol/Ailalluogi ymhellach; a
- datblygu ymhellach wasanaethau teleofal/teleiechyd.

57 Ar gyfer pob un o'r pum maes hyn, mae'r Cyngor wedi nodi cyfres o gerrig milltir, neu 'dasgau', ac wedi cyflwyno amserlen ar gyfer cwblhau pob un ohonynt. Er enghraifft, mae wedi pennu terfyn amser o fis Mai 2012 i adeiladu dau gartref gofal newydd. Er bod y rhain i gyd yn fesurau proses, dylent helpu'r Cyngor i ddangos ei fod yn gwneud cynnydd o ran helpu pobl agored i niwed gartref ac yn y gymuned a galluogi dinasyddion i asesu cynnydd y Cyngor tuag at ei nodau penodol.



58 Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi nifer o fesurau lleol a chenedlaethol i asesu ei lwyddiant ac mae cysylltiad clir rhwng y mesurau a fabwysiedir a'r amcanion eang a nodwyd. Fodd bynnag, mae'n llai amlwg sut mae'r Cyngor yn bwriadu asesu'r manteision gweladwy i ddinasyddion a ddylai ddeillio o'r rhaglenni hyn.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn helpu pobl i ddatblygu?

59 Mae'r ystadegau ar gyfer Cymru gyfan hefyd yn dangos bod gan Ferthyr gyfran uwch na'r cyfartaledd o oedolion o oedran gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau, ac mae'n is na'r cyfartaledd o ran cyfran yr oedolion o oedran gweithio sy'n raddedigion.

60 Mae Estyn, sef arolygiaeth gwasanaethau addysg a hyfforddiant Cymru, yn edrych ar ba mor dda y mae cynghorau yn helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i feithrin gwybodaeth a sgiliau. Mae'n arolygu ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi ac yn llunio barn ar ba mor dda y mae cynghorau yn cefnogi'r darparwyr addysg hyn. Mae Estyn, drwy ei dimau rhanbarthol, yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, yn ymweld ag ysgolion ac yn cyfarfod yn rheolaidd â Chyfarwyddwyr Addysg er mwyn llunio barn ar rôl y Cyngor a pherfformiad ym maes addysg yn yr ardal. Ym mis Hydref 2009, asesodd Estyn fod ansawdd gwasanaethau addysg y Cyngor yn dda, gyda rhagolygon da ar gyfer gwella.

61 Wrth werthuso gwybodaeth am berfformiad, mae Estyn yn defnyddio data Llywodraeth y Cynulliad sy'n asesu perfformiad cymharol yn erbyn y meincnod Prydau Ysgol am Ddim<sup>3</sup>. Ar gyfer pob un o'r dangosyddion perfformiad a ddewiswyd, mae cysylltiad cryf rhwng cyflawniad a'r hawl i brydau ysgol am ddim: wrth i lefel yr hawl i brydau ysgol am ddim gynyddu, mae lefel y cyflawniad yn gostwng. Gan ddefnyddio'r dadansoddiad hwnnw, gwnaeth perfformiad Merthyr yn 2009 ragori ar bob un o'r tair lefel meincnod disgwylidig ar gyfer rhai 14 a 15 oed. Mae'r meincnodau hyn ar gyfer dangosyddion pynciau craidd trothwy lefel 2 cyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 4 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg, a sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach cyfnod allweddol 4.<sup>4</sup>

## A yw'r Cyngor yn sicrhau bod plant a phobl ifanc Merthyr Tudful yn cael mynediad at addysg a hyfforddiant gan lwyr ymgysylltu â hwy?

### Pam mae'r Cyngor wedi nodi bod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer gwella?

62 O dan yr amcan gwella eang hwn, mae'r Cyngor wedi nodi nifer o ganlyniadau eang, fel y'u gelwir ganddo, sef:

- gwella cyrhaeddiad a chyflawniad;
- gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd;
- sicrhau bod ysgolion yn addas at y diben; a
- gwella iechyd, lles a dysgu plant a phobl ifanc a sicrhau nad ydynt o dan anfantais oherwydd tlodi;
- cydweithredu ag awdurdodau lleol eraill.

63 Mae'r amcanion eang hyn yn cwmpasu meysydd y nododd Estyn fod angen eu gwella ac maent yn seiliedig ar dystiolaeth:

- mae canlyniadau disgyblion ar gyfnodau allweddol un, dau a thri wedi gwaethygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf hyd at 2010; ac
- mewn ysgolion cynradd, mae cyfraddau presenoldeb wedi gostwng rhwng 2007 a 2009 - tra bod cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gwella yn ystod yr un cyfnod.

64 Ym marn y Cyngor, mae'r canlyniadau eang a nodir uchod yn bwysig yng nghyd-destun datblygu gwaith adfywio cymdeithasol ac economaidd, gwella cyfleoedd bywyd ei ddinasyddion a helpu pawb i gyflawni eu potensial llawn.

<sup>3</sup> Defnyddir cyfran y disgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim fel un o'r prif ddangosyddion o ran lefelau anfantais economaidd-gymdeithasol ar gyfer naill ai ysgol unigol neu awdurdod lleol. Caiff tlodi cymharol effaith sylweddol ar gyflawniad addysgol cyffredinol.


<sup>4</sup> Mae'r Cyfrifiad Blynyddol o Ysgolion ar Lefel Disgyblion yn defnyddio amrywiaeth eang o gymwysterau (y tu hwnt i TGAU) a enillir gan ddisgyblion yn 15 oed i gyfrifo'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach fel y'i gelwir.

## **A oes gan y Cyngor gynlluniau realistig i sicrhau bod plant a phobl ifanc Merthyr Tudful yn cael mynediad at addysg a hyfforddiant gan lwyr ymgysylltu â hwy?**

- 65 Mewn partneriaeth â Phrifysgol Morgannwg, mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei ddyheadau o ran dysgu ôl-16 drwy ddatblygu Ardal Ddysgu Merthyr. Bydd y Cyngor yn cau'r pedwar chweched dosbarth ac yn cyflwyno coleg trydyddol ar safle Coleg Merthyr yn eu lle. Yn ôl y Cyngor: 'Drwy ddwyn ynghyd ar un safle y bobl ifanc a gaiff eu haddysgu ar hyn o bryd mewn chweched dosbarth a'r bobl ifanc hynny rhwng 16 a 19 oed a gaiff eu haddysgu yng Ngholeg Merthyr Tudful ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth drydyddol a gynigir yn ei gwneud yn bosibl trefnu ystod eang o opsiynau cwricwlaidd cyffredinol, galwedigaethol ac sy'n seiliedig ar sgiliau, gan felly gynnig mwy o ddewis i bob dysgwr.'
- 66 Ar 28 Ebrill 2010 cymeradwyodd y Cyngor llawn gyhoeddiad cynigion statudol i newid y terfyn oedran ar gyfer y pedair ysgol uwchradd yn y fwrdeistref. Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gymeradwyo'r cynigion hyn cyn y gall y Cyngor fwrw ati. Mae'r Cyngor yn rhagweld y caiff sêl bendith yn y dyfodol agos.
- 67 Fel rhan o'r broses o geisio cymorth ariannol ar gyfer ei gynigion, mae'r Cyngor wedi cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Ardal Ddysgu Merthyr i Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Cyngor eisoes wedi sicrhau, mewn egwyddor, £26 miliwn (o'r gost amcangyfrifedig o £33 miliwn), a darperir £7 miliwn o'r arian angenrheidiol hwn gan y sector addysg uwch.
- 68 Mae'r Cyngor eisoes wedi cymryd rhai camau mewn perthynas â'i ganlyniadau eang. Sefydlodd pwyllgor craffu'r Gwasanaethau Integredig i Blant grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar gyfraddau presenoldeb ysgolion a llunio argymhellion i ategu gwaith Gwasanaethau Integredig i Blant. Cyflwynodd y grŵp ei ganfyddiadau a'i argymhellion i'r Cabinet ar 24 Tachwedd 2010.

## **A fydd y Cyngor yn gallu dangos p'un a yw wedi sicrhau bod plant a phobl ifanc Merthyr Tudful yn cael mynediad at addysg a hyfforddiant gan lwyr ymgysylltu â hwy?**

- 69 O fewn ei amcan gwella eang, mae'r Cyngor wedi nodi nifer o ganlyniadau eang y mae'n bwriadu eu cyflawni. Yna mae wedi pennu'r tasgau y mae angen eu cwblhau er mwyn cyflawni pob un o'r canlyniadau eang. Hefyd mae'r Cyngor wedi cysoni pob un o'r canlyniadau eang hyn â chyfres o fesurau cenedlaethol a lleol.
- 70 Mae'r mesurau a ddewiswyd gan y Cyngor i asesu p'un a yw wedi gwella yn y maes hwn yn dangos yn glir ei fod yn canolbwyntio ar wella, yn hytrach nag ar feysydd lle mae'n perfformio'n dda.
- 71 Mae'r rhain yn gamau cadarnhaol ac, yn gyffredinol, byddant yn galluogi'r Cyngor i ddangos a yw ei drefniadau yn gwella. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnig mesur ei berfformiad yn erbyn yr amcan o wella iechyd a lles plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais oherwydd tlodi. Mae'r Cyngor yn cynnig mesur ei berfformiad yn y maes hwn drwy fonitro cynnydd yn erbyn y tasgau sy'n ofynnol i gyflawni'r canlyniad eang a thrwy gyfrif nifer yr atgyfeiriadau a wneir i wasanaethau cwnsela yn unig. Targed y Cyngor yw cynyddu nifer yr atgyfeiriadau o 74 yn 2009-10 i 120 yn 2012-13.

- 
- 72 Mesur proses yw'r hyn a ddewiswyd sy'n cyfrif faint o weithgarwch y bydd y Cyngor yn ei gyflawni. Ynddo'i hun, ni fydd yn galluogi'r Cyngor i nodi p'un a yw unrhyw rai o'i blant a phobl ifanc yn well eu byd, o ran iechyd na lles na'r gallu i wrthsefyll effeithiau tloidi o ganlyniad i'w ymyrraeth.

## A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo?

- 73 Ym Merthyr Tudful, roedd y gyfradd marwolaethau ac anafiadau difrifol ar y ffyrdd yn is na chyfartaledd Cymru yn 2009. Yn 2008-09, ym Merthyr Tudful, roedd cyfran y ffyrdd dosbarth 'A' a oedd mewn cyflwr gwael yn sylweddol uwch na'r gyfran ar gyfer Cymru gyfan, a oedd yn debyg i'r sefyllfa yn y flwyddyn flaenorol.
- 74 Merthyr Tydfil sydd â'r gyfradd uchaf ond un o droseddau a gofnodwyd yng Nghymru, sydd 50 y cant yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r gyfradd hon wedi aros yr un peth fwy neu lai dros y saith mlynedd diwethaf.
- 75 Yn 2009, £483 oedd yr enillion cyfartalog wythnosol ym Merthyr Tudful, sef yr wythfed isaf o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhwng 1999 a 2009 symudodd enillion ym Merthyr Tudful o fod yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru i fod yn is na hynny.
- 76 Bu cyfradd glendid priffyrdd a thir perthnasol ym Merthyr Tudful ymhlith yr uchaf o blith awdurdodau lleol Cymru ers 2005-06, ac eithrio 2006-07, pan gwmpodd y gyfradd islaw cyfartaledd Cymru am yr unig dro.

### A yw'r Cyngor yn helpu i leihau effaith gwastraff ym Merthyr Tudful?

#### Pam mae'r Cyngor wedi nodi bod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer gwella?

- 77 Yn 2009-10, methodd y Cyngor â chyflawni targed Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer ailgylchu neu gompostio 40 y cant o wastraff trefol a hynny o 6 y cant. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi pennu targedau i gynghorau ar gyfer 2013, 2016, 2020 a 2025 – erbyn hynny bydd yn ofynnol i gynghorau ailgylchu neu gompostio 70 y cant o

wastraff trefol. Dengys astudiaeth a gomisiynwyd gan y Cyngor ac a gynhaliwyd gan gwmni ymgynghori y bydd angen iddo newid ei systemau casglu gwastraff er mwyn cyflawni targedau Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol.

- 78 Yn sgîl y posibilrwydd o gael ei ddirwyo o dan y cynllun lwfans tirlenwi mae'r Cyngor wedi mynd ati i nodi bod gwastraff ac ailgylchu yn faes pwysig. O dan Gynllun Lwfans Tirlenwi Llywodraeth y Cynulliad caiff pob awdurdod lleol swm penodol o wastraff y gellir ei dirlenwi bob blwyddyn. Gall y cynghorau hynny sy'n mynd y tu hwnt i'r terfynau a bennwyd gael eu dirwyo £200 y dunnell. Yn ogystal â dirwyo posibl, bydd cynghorau hefyd yn mynd i fwy o gostau oherwydd taliadau tirlenwi uwch.

#### A oes gan y Cyngor gynlluniau realistig i leihau effaith gwastraff ym Merthyr Tudful?

- 79 Mae gan y Cyngor amrywiaeth o gynlluniau i wella ei berfformiad yn y maes hwn. Mae rhai yn llai datblygedig nag eraill. Ar y cyd â dau awdurdod lleol arall mae'r Cyngor wedi prynu safle i gompostio gwastraff gwyrdd a gwastraff bwyd, a fydd ar waith erbyn 2013. Ymhlith ei gynlluniau llai datblygedig mae mynd i'r afael â'r graddau amrywiol iawn o gyfranogiad y cyhoedd ar draws y fwrdeistref - o 25 y cant i 85 y cant. Prif ddull y Cyngor o fynd i'r afael â hyn yw newid o gasglu gwastraff gweddilliol bob wythnos i bob pythefnos. Yn ôl amcangyfrif adroddiad ymgynghorwyr gellid sicrhau cynnydd o 45 i 50 y cant mewn ailgylchu a chompostio drwy gyflwyno'r newid hwn. Erys ansicrwydd ynghylch y ffordd y bydd y Cyngor yn ymdrin â'i wastraff gweddilliol.



80 Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu mynd i'r afael â'r amrywiadau o ran cyfranogiad y cyhoedd drwy nodi a thargedu ardaloedd â chyfraddau ailgylchu isel, a gweithio drwy Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i godi ymwybyddiaeth o ailgylchu a chompostio mewn ardaloedd lle ceir cryn amddifadedd â chyfraddau isel yn draddodiadol. Mewn ardaloedd â chyfraddau cyfranogi isel, bydd swyddogion ymwybyddiaeth o wastraff yn ymweld â'r cartrefi dan sylw i ymdrin â'r rhwystrau sy'n atal cyfraddau uwch.

81 Fodd bynnag, ceir risgiau sylweddol sydd ynghlwm wrth weithredu gwasanaeth casglu newydd yn llwyddiannus:


- Nid yw'r Cyngor wedi cytuno ar y cynnig i newid i gasglu gwastraff gweddilliol bob pythefnos eto ac mae wedi gohirio'r penderfyniad hwn am oddeutu blwyddyn. Ar ddau achlysur blaenorol methodd y Cyngor â chymeradwyo cynlluniau i symud i gasglu gwastraff gweddilliol bob pythefnos. Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod wedi penderfynu oedi cyn cymeradwyo'r cynlluniau tan i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi ei Gynllun Sector, a ddisgwylir ar ddechrau 2011.
- Awgryma tystiolaeth fod cartrefi mewn ardaloedd lle ceir cryn amddifadedd yn llai tebygol o ailgylchu neu gompostio. Mae'r rhan fwyaf o'r fwrdeistref yn dioddef lefelau uchel o amddifadedd, gyda chwech o'r 11 o wardiau yn dod o dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Ennill cefnogaeth felly yw'r her fwyaf sy'n wynebu'r Cyngor ac mae'r dasg o newid ymddygiad pobl yn debygol o fod yn un anodd.
- Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi pennu targed i gynghorau i ailgylchu neu gompostio 52 y cant o wastraff erbyn 2013. Bydd yn rhaid i'r Cyngor gyflwyno ei newidiadau arfaethedig yn gyflym os yw am wella i'r fath raddau sy'n angenrheidiol

erbyn 2013, yn enwedig o ystyried y gwaith y mae angen ei wneud. Ailgylchodd neu compostiodd y Cyngor 34 y cant o wastraff yn 2009-10.

- Mae'r gwaith modelu a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i asesu effeithiau tebygol ei newidiadau arfaethedig yn gwneud nifer o dybiaethau ynghylch tunelli a chyfraddau ailgylchu a chompostio. Fodd bynnag, heb unrhyw raglen addysgu fawr i annog pobl i ailgylchu, credwn fod ymarferion modelu'r Cyngor wedi arwain at ddarogan y caiff y newidiadau a gynigir i wasanaethau lawer mwy o effaith nag y cânt mewn gwirionedd.
- Nid yw cynigion y Cyngor ar gyfer gwella ei wasanaethau gwastraff wedi ystyried newidiadau posibl i gyllid Llywodraeth y Cynulliad o dan y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy.

### **A fydd y Cyngor yn gallu dangos p'un a yw wedi lleihau effaith gwastraff ym Merthyr Tudful?**

- 82 Yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2010-13 mae'r Cyngor wedi nodi'n glir sut y bydd yn mesur ei lwyddiant yn y maes hwn gan ddefnyddio mesurau a ddatblygwyd yn genedlaethol ac yn lleol. Mae a wnelo'r mesurau cenedlaethol â'r canlynol:
- cynyddu canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a baratoir i'w aildefnyddio neu ei ailgylchu, gan gynnwys biowastraff a ddidolir yn y tarddiad ac a gaiff ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall; a
  - gostwng canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei dirlenwi.

- 
- 83 Mae'r Cyngor hefyd wedi llunio mesurau lleol i asesu ei lwyddiant yn mynd i'r afael ag un o'i broblemau allweddol - lefelau amrywiol o gyfranogi:
- nifer y gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a gyflawnir;
  - canran y cartrefi sy'n ailgylchu deunydd sych wrth y palmant; a
  - chanran y cartrefi sy'n ailgylchu gwastraff bwyd wrth y palmant.
- 84 Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi tair tasg a fydd, yn ei farn ef, yn ganolog i'r gwaith o wella ei berfformiad yn y maes hwn. Ar gyfer pob un o'r tasgau allweddol hyn, mae'r Cyngor wedi datblygu nifer o gerrig milltir er mwyn asesu cynnydd yn eu herbyn.
- 85 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi pennu targedau ailgylchu a chompostio i bob cyngor eu cyflawni yn 2013, 2016, 2020 a 2025. Hefyd, ar gyfer mesurau lleol a chenedlaethol, mae'r Cyngor wedi pennu targedau blynyddol iddo'i hun ar gyfer oes ei Gynllun Corfforaethol.

# Beth y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ei wneud?

- 86 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:
- argymhell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
  - cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
  - gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod; a
- 87 Ni chredwn fod angen argymhell ymyrraeth Weinidogol, nac ychwaith gynnal arolygiad arbennig na gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella. Yn hytrach credwn fod angen i'r Cyngor ystyried y cynigion canlynol i'w helpu i wella:
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

## Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach

- ar gryn fyrder, datblygu blaenoriaethau ac amcanion gwella clir sy'n cyfrannu at gyflawni'r Cynllun Gymunedol newydd a gwireddu gweledigaeth y Cyngor;
- paratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella Corfforaethol newydd sy'n:
  - adlewyrchu'r rhan a chwaraeir gan y cyhoedd a rhanddeiliad wrth bennu blaenoriaethau;
  - nodi amcanion gwella'r Cyngor ynghyd â mesurau canlyniadau sy'n dangos p'un a yw'r Cyngor yn gwneud gwahaniaeth i fywydau dinasyddion Merthyr Tudful ac i ba raddau y mae'n gwneud hynny; a
  - dangos arweinyddiaeth gymunedol i reoli disgwyliadau dinasyddion yng nghyd-destun toriadau mewn gwariant cyhoeddus.
- datblygu fframwaith strategol i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau ac amcanion gwella'r Cyngor, gan gynnwys strategaethau ar gyfer gwaith cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu, a rheoli asedau tymor canolig;

## Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach

- symleiddio ac atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad, gan sicrhau bod y gwaith o gynllunio gwasanaethau yn gwbl gydnaws â blaenoriaethau corfforaethol, a gynhelir yn gyson a bod systemau monitro perfformiad strategol yn gadarn ac yn heriol;
- wrth weithredu ei gynlluniau i wella systemau craffu, dylai'r Cyngor roi trefniadau ar waith i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn glir ac y neilltuir amser i'r materion yr ystyrir eu bod bwysicaf.

## Cynigion newydd

- sicrhau bod cynlluniau gweithredu sy'n ategu'r gwaith o gyflawni Blaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer Gwella a Chynlluniau Busnes Gwasanaethau yn ymgorffori amcangyfrifon realistig o adnoddau ariannol, adnoddau staff ac adnoddau eraill sy'n ofynnol i gymryd y camau arfaethedig, ac adolygu eu fforddiadwyedd yng nghyd-destun sefyllfa lle mae llai o adnoddau ar gael;
- cyhoeddi blaenoriaethau a chynlluniau gwella yn gynharach yn y flwyddyn ac egluro pa fuddiannau y gall dinasyddion eu disgwyl.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

### Yr Archwilydd Cyffredinol

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio amryw o agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 drwy uno'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad a'i chyrrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilydd allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian y cyhoedd, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymestyn pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' ble bynnag mae'n mynd.

### Yr adroddiad hwn

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef; cyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau.<sup>7</sup>

<sup>3</sup> Cynhelir yr asesiad hwn ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Bydd yn penderfynu a yw pob awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn penderfynu a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Bydd hyn yn cael ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ar sut y llwyddodd yr awdurdod i wella.

Cyhoeddir canlyniad(au) yr asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu, o dan adran 19 o'r Mesur. Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio ein bod wedi cynnal archwiliad adran 17 ac asesiad gwella adran 18.

Dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, gan ei gyhoeddi o bosibl (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn a gyhoeddir (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

## Atodiad 2

### Gwybodaeth ddefnyddiol am Ferthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Aelod Etholaethol y Cynulliad dros Ferthyr Tudful yw:

- Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni, y Blaid Lafur

Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad dros Ddwyrain De Cymru yw:

- Mohammad Asghar, Plaid Geidwadol Cymru
- Jocelyn Davies, Plaid Cymru
- Veronica German, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- William Graham, Plaid Geidwadol Cymru

Aelod Seneddol Merthyr Tudful yw:

- Dai Harvard, Merthyr Tudful a Rhymni, y Blaid Lafur

Ceir 33 o Gynghorwyr ym Merthyr Tudful sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys Aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 13 o'r Grŵp Annibynnol
- 10 o'r Blaid Lafur
- 4 o'r Democratiaid Rhyddfrydol
- 3 Plaid Annibynnol Merthyr
- 2 Annibynnol
- 1 o Blaid Annibynnol y DU

Yn 2008-09 gwariant refeniw gros y Cyngor oedd £137 miliwn, sy'n cyfateb i £2,454 fesul trigolyn. Yn y flwyddyn honno, gwariodd y Cyngor £47 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. Yn 2009-10, treth gyngor gyfartalog band D ar gyfer Merthyr Tudful oedd £1,251.61 y flwyddyn; bydd hyn yn cynyddu 3.76 y cant i £1,298.71 y flwyddyn ar gyfer 2010-11. Mae 93 y cant o dai Merthyr Tudful yn y bandiau treth gyngor A i D.

Gareth Chapman yw Prif Weithredwr Interim y Cyngor. Y Prif Weithredwr yw Pennaeth y Gwasanaeth Taledig. Mae'r Tîm Arwain yn cynnwys Giovanni Isingrini, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adfywio Cymdeithasol; Gary Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid; Hugh O'Sullivan, Cyfarwyddwr Cyllid.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor yn [www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk) neu cysylltwch â'r Cyngor yn Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN.



# Atodiad 3

## Asesiad corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Awst 2010.

**Yn yr hinsawdd ariannol newydd, bydd yn anoddach i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gynnal momentwm o ran gwella oni bai bod ei raglen o fentrau newid yn cael ei gweithredu ochr yn ochr â blaenoriaethau strategol clir, strategaeth ariannol tymor canolig glir a threfniadau rheoli pobl effeithiol.**

### Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

Mae prosesau datblygu corfforaethol y Cyngor wedi ei wasanaethu'n dda ond mae angen gwneud cysylltiad cliriach â'i agenda strategol er mwyn i'w drefniadau corfforaethol gefnogi gwelliant parhaus yn yr amseroedd heriol sydd o'i flaen.

Mae'r Cyngor wedi sicrhau gwelliant sylweddol o sylfaen weddol isel ers 2003.

Mae trefniadau cyfredol wedi datblygu i wella effeithiolrwydd ond nis cysylltir ddigon ag agenda gwella strategol.

Nid yw'r Cyngor yn debygol o gynnal gwelliant parhaus oni bai ei fod yn achub ar y cyfle a gyflwynir gan newidiadau mewnol diweddar i egluro ei flaenoriaethau sicrhau bod ei gynlluniau ariannol a gwella yn fwy cydnaws.

### Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

Mae llawer o agweddau ar drefniadau'r Cyngor yn effeithiol ond nid ydynt wedi'u sefydlu i gefnogi agenda strategol glir ac mae trefniadau rheoli pobl wedi'u tanddatblygu.

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith i nodi risgiau, sydd wedi'u tanategu gan waith rheoli adnoddau gweithredol effeithiol, prosesau llywodraethu cywir ac ymagwedd gadarnhaol at bartneriaethau.

Er bod y Cyngor yn ymchwilio i opsiynau i sicrhau gwerth am arian, dylai'r dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r gwaith strategol o reoli ei adnoddau fod yn gryfach.

Mae'r Cyngor yn adolygu ei flaenoriaethau strategol yn sgîl yr heriau y mae'n eu hwynebu ond hyd yma nid yw wedi datblygu manylion ei amcanion gwella na'i drefniadau cynllunio busnes.

Mae prosesau rheoli pobl wedi'u tanddatblygu o hyd ac nid yw'n helpu'r Cyngor i sicrhau gwelliant.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk) neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

**Cydymffurfiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful â'r gofynion adrodd sy'n gysylltiedig â threfniadau ariannol a gwella perfformiad ond mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am wneud y canlynol:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.


Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i ni:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol; a
- chyflwyno tystysgrif i gadarnhau ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2010 rhoddwyd barn archwilio ddiamed gennym ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor. Mae ein hadroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Nodwyd y materion canlynol wrth archwilio'r cyfrifon:

- mae'r prosesau ar gyfer paratoi datganiadau cyfrifyddu yn parhau i gael eu rheoli'n dda, gan arwain at ddatganiadau drafft o ansawdd uchel a ategir gan bapurau gwaith cynhwysfawr;
- gwneir cryn dipyn o gynnydd wrth baratoi ar gyfer cyflawni Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn 2010-11;
- gellid gwella'r trefniadau ar gyfer cynnal trafodion cyfrifyddu cyfalaf; a
- pharatowyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn gywir ac yn unol ag amserlen y Cynulliad.



Mae ein hadolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnwn eich sylw at y materion canlynol:

- mae trefniadau rheolaeth gyllidebol effeithiol ar waith ac mae cynllun ariannol tymor canolig yn cael ei ddatblygu, ond mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol; a
- chydymffurfiodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol â safonau CIPFA a pharhawn i ddibynnu ar eu gwaith.

Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-2011, sef Cynllun Gwella Blynyddol y Cyngor, yn bodloni gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009-10, ond nid yw'r Cyngor wedi cynnwys targedau blynyddoedd i ddod ar gyfer ei ddangosyddion perfformiad. Fodd bynnag, cyhoeddwyd targedau ar gyfer y dangosyddion a gaiff eu defnyddio i fesur perfformiad y Cyngor yn erbyn ei flaenoriaethau gwella corfforaethol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.

Cyhoeddwyd tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2010. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-2010 fod yn uwch na'r swm a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio Ariannol gan ein bod wedi derbyn cwestiwn gan aelod o'r cyhoedd yr ymchwiliwyd iddo ac a atebwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd a wnelo'r cwestiwn â chynllun gostegu traffig arfaethedig y penderfynodd y Cyngor beidio â'i weithredu am ei fod wedi blaenoriaethu adnoddau mewn meysydd eraill. Cafwyd bod y Cyngor yn gweithredu'n briodol o ran ymdrin â'r mater ac nad oedd yn torri ei ddyletswyddau statudol. Daethom i'r casgliad na fyddem yn cymryd unrhyw gamau pellach.

Yn gywir

PricewaterhouseCoopers LLP  
Archwilydd Penodedig  
29 Tachwedd 2010

## Atodiad 5

### Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2010-13 sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn [www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk). Y rhain yw:

Blaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer Gwella 2010-13	
<b>Adfywio Cymdeithasol, Economaidd a Ffisegol</b>	Er mwyn cynllunio ar gyfer y gostyngiad sylweddol a ragwelir mewn gwariant cyfalaf y sector cyhoeddus o ganlyniad i'r Adolygiad Gwariant a therfynu Cyllid Strwythurol Ewropeaidd o fewn oes y cynllun hwn, rydym yn bwriadu: <ul style="list-style-type: none"><li>• gwneud y mwyaf o'r Cyfalaf posibl sydd ar gael o'r sector cyhoeddus ar gyfer cyfnod y cynllun hwn;</li><li>• gwneud y mwyaf o fewnfuddsoddiad posibl y sector preifat a all gysylltu â chynlluniau gwariant y sector cyhoeddus.</li></ul>
	Creu a chynnal amgylchedd lle mae gwasanaethau'n cydlynu ac yn caniatáu preswylwyr di-waith i gael at ystod eang o gymorth, cyfleoedd dysgu a chyflogaeth, a gwneud cyfraniad cadarnhaol at y gostyngiad mewn tlodi plant.
	Mae safle'r Fwrdeistref Sirol fel canolfan ranbarthol Blaenau'r Cymoedd yn cael ei gryfhau gydag amgylchedd, cyfleusterau ac atyniadau deniadol o ansawdd uchel, sy'n arwain at fewnfuddsoddiad sylweddol, creu swyddi, ac adfywio economaidd a chymdeithasol cynaliadwy o ganlyniad.
<b>Canolbwyntio ar Gwsmeriaid ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid</b>	Mewnosod newid trawsffurfiol i'r sefydliad cyfan, cyflawni gwasanaeth mewn ffordd radical a chynaliadwy, arddangos effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd parhaol, a gwelliannau sylfaenol i brofiad y cwsmer.
<b>Bywydau Bodlon a Chymunedau Cefnogol</b>	Cynorthwyo pobl o bob oed sy'n agored i niwed i fwynhau'r lefel uchaf bosibl o iechyd, annibyniaeth, diogelwch ac ansawdd bywyd gartref ac yn y gymuned. Cyflawnir hyn yn rhannol trwy weithredu'r rhaglen Cartrefi am Oes sy'n cynnwys ail-ffurweddu cartrefi preswyl, datblygu cyfleuster gofal ychwanegol, moderneiddio gwasanaethau ail-alluogi a datblygu teleofal.
<b>Diogelwch Cymunedol</b>	Cymuned lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel a lle mae troseddu ac anhrefn wedi gostwng.
<b>Tai o Ansawdd Uchel</b>	Gostwng digartrefedd yn y Fwrdeistref Sirol a sicrhau bod gan yr holl breswylwyr fynediad da at dai fforddiadwy, addas o ansawdd da.

<b>Blaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer Gwella 2010-13</b>	
<b>Ailgylchu a Rheoli Gwastraff</b>	Gostwng effaith gwastraff ym Merthyr Tudful trwy sicrhau bod gennym ni'r cyfleusterau cywir ar gyfer casglu a thrin ein gwastraff, a thrwy annog pob preswylwr, ysgol a busnes i leihau, aildefnyddio ac ailgylchu eu gwastraff.
<b>Gwasanaethau Cyhoeddus Effeithlon</b>	Darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon trwy foderneiddio prosesau caffael, adolygu pob gwasanaeth i amlygu effeithlonrwydd yn ogystal â rhesymoli llety swyddfa.
<b>Isadeiledd gan gynnwys Priffyrdd</b>	Mae'r rhwydwaith yn y Fwrdeistref Sirol yn cael ei gynnal ar lefel dderbyniol, yn cydnabod blaenoriaethau'r Cyngor a'i rwymedigaethau statudol, gan ystyried y cyllid sydd ar gael.
<b>Cyfleoedd Dysgu o Ansawdd Uchel</b>	Mae gan Blant a Phobl Ifanc Merthyr Tudful fynediad at addysg a hyfforddiant ac maent yn llwyr ymgysylltu â'r rhain.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Cymerwyd yr holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau crynhoi ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella'r Awdurdod Gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil Aelodau
- Swyddfa Ystadegau Gwladol